# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mercher, 23 Mai 2018

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.00)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09.00) (Tudalennau 1 - 2)

**2.1 PTN1 - Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg - tryloywder y Gyllideb - 15 Mai 2018**

(Tudalennau 3 - 6)

**2.2 PTN2 - Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau - Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) - 15 Mai 2018**

(Tudalennau 7 - 8)

## 3 Cost Gofalu am Boblogaeth sy'n Heneiddio: Sesiwn Dystiolaeth 7 (Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol)

(09.00-10.00) (Tudalennau 9 - 39)

Huw Irranca-Davies AC, y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol

Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio

Judith Cole, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol, Gweithlu a Phartneriaeth Cymdeithasol

Papur 1 - Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(10.00)

## 5 Cost Gofalu am Boblogaeth sy'n Heneiddio: trafod y dystiolaeth

(10.00-10.15)

## 6 Senedd@Delyn

(10.15-10.25) (Tudalen 40)

Papur 2 - Llythyr oddi wrth y Llywydd - Senedd@Delyn - 15 Mai 2018

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 17 Mai 2018

Amser: 09.32 - 09.58

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4836

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Simon Thomas AC (Cadeirydd)<br>Mike Hedges AC<br>Jane Hutt AC<br>Nick Ramsay AC<br>David Rees AC |
| Staff y Pwyllgor: | Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC a Neil Hamilton AC.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 PTN1 – Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid at y Cadeirydd – Cyfalaf Trafodion Ariannol – 24 Ebrill 2018**

2.1.1 O ran PTN1, cytunodd y Cadeirydd i ddilyn yr ymholiad gan David Rees AC ar p'un a yw'r £22.25 miliwn ar gyfer Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru yn rhan o'r gronfa bontio o £50 miliwn ar gyfer Brexit.

**2.2 PTN2 – Llythyr oddi wrth Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru – Cost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio: Tystiolaeth atodol – 27 Ebrill 2018**

**2.3 PTN3 – Cost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio: Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru – Tystiolaeth atodol – 2 Mai 2018**

**2.4 PTN4 – Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid – Cyllidebau Atodol 2018-19 – 9 Mai 2018**

**2.5 PTN5 – Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid – Rhoi datganoli cyllidol ar waith yng Nghymru: Ymateb Llywodraeth Cymru – 10 Mai 2018**

**2.6 PTN6 – Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru – Cod Ymarfer Archwilio – 10 Mai 2018**

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru): Cynigion ar gyfer gwelliannau yng Nghyfnod 2

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor gynigion ar gyfer gwelliannau i'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru).

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Vaughan Gething AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau

15 Mai 2018

Annwyl Ysgrifenyddion y Cabinet,

**Gwybodaeth am gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru**

Ar 2 Mai 2018, trafododd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ei flaenraglen waith strategol. Yn ystod y sesiwn honno, trafodwyd dull y Pwyllgor o graffu ar gyllidebau drafft Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, gan fyfyrio ar y profiadau a gafwyd hyd yma.

Gyda'r nod o helpu'r Pwyllgor i wneud gwaith craffu ariannol effeithiol ac adeiladol, roeddem am roi rhybudd cynnar ynghylch rhai o'r gwelliannau y dylid eu gwneud, yn ein barn ni, er mwyn ein galluogi i gyflawni ein rôl greiddiol yn effeithiol, sef dwyn y Llywodraeth i gyfrif mewn perthynas â'i chynlluniau cyllidebol, ac yn dilyn hynny, ei gwariant. Yn yr atodiad i'r llythyr hwn, ceir crynodeb o'r meysydd yr argymhellwyd y dylent fod yn destun gwelliannau.

Caiff y llythyr hwn ei rannu â'r Pwyllgor Cyllid, i'w helpu gyda'i waith craffu cyffredinol ar y broses a'r weithdrefn sydd ynghlwm wrth y gyllideb.

Yn gywir

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

**ATODIAD**

## 01. Tryloywder y wybodaeth a geir am y gyllideb

Amlygodd adroddiad y Pwyllgor ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 gyfres o bryderon mewn perthynas â'r modd y cyflwynir gwybodaeth yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

Er enghraifft, roedd yr Aelodau'n pryderu ynghylch y materion a ganlyn:

- gallai'r broses o ail-gyfrifo data'r gyllideb sylfaenol godi amheuon ynghylch hygrededd y modd y mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei chyllideb;

- dylai Llywodraeth Cymru fod yn fwy pendant o ran ei phrif gyhoeddiadau ynghylch y newidiadau gwirioneddol sy'n cael eu gwneud o ran cyllid a ddarperir (roedd hyn yn arbennig o berthnasol i gyllideb ddrafft 2018-19 a'r cyllid sy'n cael ei ddarparu i ysgolion);

- dylid cyflwyno'r adnoddau a ddyrennir i blant a phobl ifanc mewn modd cliriach yn nogfennaeth y gyllideb ddrafft, a hynny er mwyn hwyluso gwaith craffu ynghylch fforddiadwyedd, gwerth am arian, a'r graddau y mae'r adnoddau hyn yn cael eu blaenoriaethu.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, cynhaliwyd trafodaethau yn y Cyfarfod Llawn ynghylch y trefniadau ar gyfer y grant gwisg ysgol. Yn ystod y trafodaethau hyn, nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg fod gwybodaeth yn ymwneud â'r grant gwisg ysgol wedi'i chynnwys yn y ddogfennaeth a gyhoeddwyd mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft:

> "os ewch yn ôl at y papurau ymgynghori ar y gyllideb a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth ym mis Hydref ac yna ar adeg y gyllideb derfynol, fe welwch y penderfyniad hwn yn eich papurau pwyllgor ac yn y papurau cyllideb hynny, ar y tablau grantiau, ac rwy'n synnu (...) na chafodd hyn ei godi"

Hoffai'r Pwyllgor fanteisio ar y cyfle hwn i nodi'r pwyntiau a ganlyn:

- yr unig gyfeiriad at y grant gwisg ysgol yn y wybodaeth ynghylch y gyllideb ddrafft oedd brawddeg o fewn yr esboniad a gafwyd am newidiadau eraill a wnaed mewn perthynas â'r un cam gweithredu, sef bod cyllid o "£0.700m wedi'i ddileu hefyd ar gyfer y Grant Gwisgoedd Ysgol." Ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth bellach yn egluro bod y swm hwn yn cynrychioli 100 y cant o'r grant.

- nid oedd y cam o ddileu'r grant yn amlwg yn nhablau'r gyllideb, gan ei fod yn un rhan o'r llinell wariant yn y gyllideb ar gyfer llywodraethu ysgolion, ac nid oedd unrhyw ddadansoddiad yn y tabl o'r gostyngiad cyffredinol o £1.088 miliwn a gafwyd yn y llinell wariant honno;

- wrth ateb cwestiwn a ofynnwyd gan Mark Reckless AC fel rhan o'r gwaith craffu a wnaed gan y Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft, ynghylch y rhesymau pam fod y llinell wariant ar gyfer llywodraethu ysgolion wedi gostwng o £1.124 miliwn i £36,000, ni wnaed unrhyw gyfeiriad at ddileu'r grant gwisg ysgol (16 Tachwedd 2017).

O gofio'r doreth o fanylion sy'n cael eu cyhoeddi fel rhan o'r gyllideb ddrafft, a'r cyfnod byr iawn o amser sydd gan bwyllgorau i graffu arnynt, mae'r Pwyllgor yn siomedig ynghylch y rhagdybiaeth y byddai hyn wedi dod i'r amlwg yn hawdd yn ystod y broses graffu. Credwn ei bod yn ddyletswydd ar Ysgrifenyddion y Cabinet i dynnu sylw at unrhyw doriadau o'r fath sy'n cael eu gwneud, gan gynnwys unrhyw benderfyniadau i ddileu grantiau.

Yng ngoleuni'r uchod, mae'r Pwyllgor yn gofyn bod **naratif esboniadol tryloyw (yn ogystal â darlun rhifol)** yn cael ei ddarparu ar gyfer cyllideb ddrafft 2019-20 a'r blynyddoedd ariannol dilynol, a bod y ddogfen honno'n cynnwys y manylion a ganlyn:

- penderfyniadau i ostwng/dileu neu gynyddu/ychwanegu meysydd penodol yn y gyllideb ddrafft o'i chymharu â blynyddoedd ariannol blaenorol (er enghraifft, grantiau'n cael eu gostwng, eu dileu, eu cyflwyno neu eu cynyddu);
- y gyfran o'r swm cyffredinol a ddyrannwyd yn flaenorol y mae'r newid hwn yn ei chynrychioli (er enghraifft, o ran y grant gwisg ysgol, egluro bod y cam hwn yn golygu bod y grant cyfan yn cael ei ddileu);
- lle mae'r newid hwn yn cael ei wneud yn y gyllideb ddrafft; p'un a fydd cyllid yn cael ei ddychwelyd i'r cronfeydd canolog neu'n cael ei dynnu o'r cronfeydd hynny; a ph'un a fydd cyllid yn cael ei ddyrannu i/o linellau eraill yn y gyllideb.

**02. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant**

Yn adroddiad y Pwyllgor ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19, mynegod yr Aelodau bryderon ynghylch y ffaith na wnaed asesiad o'r effaith ar hawliau plant mewn perthynas â'i chynnwys. Roedd yr adroddiad:

- yn cydnabod gwaith Llywodraeth Cymru o ran cynnal asesiadau integredig o effaith ynghylch y gyllideb, ond yn cwestiynu a oedd hyn yn ddigonol o ran bodloni'r dyletswyddau a roddwyd ar Weinidogion Cymru o ran cynnal hawliau plant a phobl ifanc.

- yn cwestiynu a oedd alinio asesiadau integredig o effaith gyda nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar ei ben ei hun yn ddigon i sicrhau bod sylw dyledus yn cael ei roi i hawliau plant, yn enwedig gan nad yw'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd gyfreithiol benodol o sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

O ganlyniad, roedd y Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd y camau a ganlyn:

- cynnal asesiad o'r effaith ar hawliau plant mewn perthynas â'i chyllideb ddrafft, a hynny fel mater o drefn;

- nodi'n gliriach yn nogfennaeth y gyllideb ddrafft sut y mae adnoddau ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael eu dyrannu.

Hoffai'r Pwyllgor fanteisio ar y cyfle hwn i ailddatgan ei bryder ynghylch y ffaith y byddai'n anodd, ar y gorau, nodi'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi hawliau plant a phobl ifanc os nad oes asesiad o'r effaith ar hawliau plant. Ar y gwaethaf, gallai absenoldeb asesiad o'r effaith ar hawliau plant olygu bod Llywodraeth Cymru yn talu sylw annigonol i hawliau plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau ariannol pwysig. Mae dileu'r grant gwisg ysgol yn enghraifft o hyn. Ni chrybwyllwyd y mater hwn yn yr asesiad effaith integredig strategol ar gyfer cyllideb ddrafft 2018-19, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y mater wedi'i drafod o gwbl fel rhan o'r broses o asesu effaith. Felly, mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai cynhyrchu asesiad o'r effaith ar hawliau plant yn sicrhau bod materion o'r fath yn cael eu hystyried yn fanwl ac yn helpu'r broses o fynd i'r afael â'r anawsterau a wynebir wrth geisio deall canlyniadau penderfyniadau ariannol.

Felly, mae'r Pwyllgor yn gofyn bod asesiad annibynnol a manwl o'r effaith ar hawliau plant **yn cael ei gynnal i lywio cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20** (ac yn y blynyddoedd ariannol dilynol). Credwn y dylid cyhoeddi ei gynnwys fel dogfen annibynnol, yn hytrach na bod y cynnwys hwn yn cael ei grynhoi mewn asesiad integredig. Credwn hefyd y dylid rhannu'r ddogfen hon gyda'r Pwyllgor at ddibenion llywio ei waith craffu.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

15 Mai 2018

Annwyl Simon

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 17 Ebrill, a drafodwyd yn ein cyfarfod ar 3 Mai.

**Amserlen**

Fe wnaethom nodi'ch gohebiaeth i'r Pwyllgor Busnes yn gofyn am estyniad i'r terfyn amser ar gyfer Cyfnod 2.

**Cynnwys Swyddfa Archwilio Cymru yn Atodlen 3**

Cafwyd tystiolaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, lle nododd ei bryderon ynghylch cynnwys Swyddfa Archwilio Cymru yn Atodlen 3 o'r Bil. Ategwyd y farn hon gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei dystiolaeth ysgrifenedig. Ar ôl adolygu'r dystiolaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Ombwdsman, rydym yn ategu eu galwadau am gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i dynnu Swyddfa Archwilio Cymru o Atodlen 3.

Yn gywir

John Griffiths AC
Cadeirydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English

**Y Pwyllgor Cyllid - Ymchwiliad i Gost Gofalu am Boblogaeth sy'n Heneiddio**
**Papur Tystiolaeth a Gyflwynwyd gan Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**

**Cyflwyniad**
Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi fy ngwahodd i roi tystiolaeth lafar ar 23 Mai fel rhan o'i ymchwiliad i gost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio. Mae'r papur tystiolaeth yn amlinellu'r materion sy'n effeithio ar ofal cymdeithasol a chymorth i boblogaeth sy'n heneiddio a sut rydym yn mynd i'r afael â'r rhain o safbwynt polisi gofal cymdeithasol.

Mae'r papur hwn yn trafod:

- y ffaith y dylid ystyried gofal cymdeithasol yng nghyd-destun ehangach iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant integredig;
- y sialens ddemograffig sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio;
- sut mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i hyn o safbwynt gofal cymdeithasol yn nhermau newidiadau deddfwriaethol, ffurfio byrddau partneriaeth rhanbarthol, cymorth i'r gweithlu gofal cymdeithasol a gofalwyr di-dâl, a darparu cyllid ychwanegol; a
- sut rydym yn ceisio rhoi dyfodol gofal cymdeithasol ar sylfaen fwy cynaliadwy drwy fodelau cyllido newydd ac arloesol.

**Gwasanaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant Integredig**
Mae gofal cymdeithasol yn hanfodol ac yn cynorthwyo pobl i fyw bywydau annibynnol a llawn waeth beth fo'u hamgylchiadau unigol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i boblogaeth sy'n heneiddio. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf y mae data ar gael ar ei chyfer, (2016-17), roedd awdurdodau lleol yn darparu dros 110,000 o fathau o ofal a chymorth i oddeutu 62,000 o bobl 65 oed a hŷn, gan eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau llesiant a chynnal eu hannibyniaeth. Mae hyn yn golygu darparu gofal a chymorth i 10,000 mwy o bobl o'r oedran hwn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, wedi'i ddarparu mewn rhai achosion gan yr awdurdodau lleol yn uniongyrchol, ond mewn achosion eraill, fe'u darparwyd gan y sector annibynnol neu'r trydydd sector.

Fodd bynnag, ni ddylid edrych ar y llwyddiant o ran diwallu'r galw cynyddol hwn am ofal a chymorth ar ei ben ei hun. Dylid darparu gofal cymdeithasol fel rhan o system ddi-dor sy'n cysylltu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant. O ganlyniad, dylai pobl fod yn ganolog i'r gofal sydd ei angen arnynt, boed yn ofal iechyd neu'n ofal cymdeithasol, wedi'i drefnu a'i ddarparu ar sail eu hanghenion. Roedd hwn yn un o argymhelliad allweddol yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan ysgogi newid a gwelliant o ran atal a llesiant, darparu gofal o ansawdd gwell a'r weledigaeth o ddull system gyfan sy'n fwy effeithiol, effeithlon a chynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Er bod ymchwiliad y Pwyllgor yn canolbwyntio ar ofal cymdeithasol, a bod y papur tystiolaeth hwn yn ymateb i'r un perwyl, ni ddylid esgeuluso'r agenda ehangach hon.

**Yr Her ar gyfer y Dyfodol**
Byddwch wedi gweld bod y papur tystiolaeth a ddarparwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn amlygu'r amcanestyniadau o dwf poblogaeth Cymru dros y blynyddoedd hyd at 2040, yn arbennig ymysg y rhai dros 85 oed. Yn ôl yr

amcanestyniadau, bydd canran y boblogaeth dros 65 oed yn codi o 20.4% yn 2016 i 22.9% erbyn 2026, ac yna i 26.3% erbyn 2036. Er bod hwn yn achos dathlu gan fod mwy ohonom yn byw'n hwy, mae'n codi'r cwestiwn am y gofal a'r cymorth fydd eu hangen i ymateb i'r cynnydd sylweddol yn ein poblogaeth sy'n heneiddio.
Nid oes tystiolaeth uniongyrchol sy'n nodi beth fydd lefel hirdymor y galw am ofal cymdeithasol i boblogaeth sy'n heneiddio. Yn 2015, comisiynodd Llywodraeth Cymru LE Wales (ymgynghoriaeth economeg a pholisi) i wneud ymchwil mewn perthynas â thalu am ofal cymdeithasol yn y dyfodol. Roedd yr adroddiad dilynol yn awgrymu pe byddai cyfraddau presennol o amrywiol anghenion gofal a chyflyrau iechyd yn cael eu cymhwyso i'r newid yn strwythur demograffeg y boblogaeth, byddai hyn yn awgrymu cynnydd sylweddol yn y galw am ofal a chymorth cymdeithasol.

Nid oedd hyn yn ystyried y gwelliannau a wnaed yn y ddarpariaeth a'r ymdriniaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol dros yr un cyfnod, gan gynnwys effeithiau dulliau atal cynyddol a mwy effeithiol. Bydd yn cymryd amser i wireddu manteision y newidiadau o ran diwylliant darparu gwasanaeth a chynnig camau i atal salwch lle bo hynny'n bosibl yn hytrach na'r defnydd diofyn o becynnau gofal a chymorth. Fodd bynnag gallai hyn, a gwelliannau yn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, chwarae rhan arwyddocaol i wrthweithio'r pwysau hwn. O ganlyniad mae'n anodd cadarnhau'r union oblygiadau yn nhermau gofal oherwydd y twf yn y garfan hon o'r boblogaeth gan nad yw'n hysbys pa effaith fydd y gwelliannau i lesiant a disgwyliad oes bobl hŷn yn ei chael ar allu pobl i fyw'n annibynnol. Er hynny, rydym yn ymateb i'r her hon nawr.

**Sut Rydym Yn Ymateb I'r Her Hon**

Yn ogystal ag ymateb i'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r awdurdodau lleol, rydym hefyd yn ail-lunio'r modd y darperir gofal a chymorth. Rhoddir enghreifftiau isod:

<u>Newidiadau yn y Dulliau y Caiff Gofal ei Ddarparu a'i Gyflenwi</u>

Am y tro cyntaf mewn cenhedlaeth, newidiodd ein deddf arloesol, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 y modd y darperir gofal cymdeithasol yng Nghymru. Nawr, o dan y Ddeddf, ystyrir anghenion pobl yng nghyd-destun y canlyniadau llesiant y maent yn awyddus i'w cyflawni yn hytrach na dim ond darparu'r gwasanaethau sydd ar gael gan awdurdodau lleol neu drwy ofal cymdeithasol. Yn gydnaws â hyn mae'r Ddeddf yn rhoi mwy o bwyslais ar atal salwch er mwyn lleihau'r galw nawr ac yn y dyfodol am becynnau gofal dwys drutach, naill ai'n gyfan gwbl neu o leiaf am gyfnodau hwy.

Darparodd Deddf 2014 hefyd ar gyfer byrddau partneriaeth rhanbarthol newydd. Mae'r rhain yn dod â byrddau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a phartneriaid eraill ynghyd ar y patrwm byrddau iechyd er mwyn cyflenwi'r ddarpariaeth gofal a chymorth integredig. Mae hyn yn cynnwys gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau a sgiliau. Mae'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gennym o dan y Ddeddf yn pwysleisio bod gofal a chymorth integredig mewn perthynas â phobl hŷn yn flaenoriaeth i'r byrddau hyn.

Ochr yn ochr â'r fframwaith cyfreithiol yma mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £150 miliwn o gyllid ers 2014-15 i fyrddau partneriaeth rhanbarthol drwy'r Gronfa Gofal Integredig. Nod yr ymrwymiad hwn yn y *"Rhaglen Lywodraethu"* yw cefnogi'r ddarpariaeth o ystod eang o wasanaethau arloesol ac integredig i gynorthwyo pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth, i osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty a phan fydd angen iddynt fynd i'r ysbyty, eu bod yn dychwelyd adref yn gynt. Yn

2018-19 byddwn yn ychwanegu at hyn drwy ddarparu cyllid ychwanegol o £50 miliwn i'r byrddau partneriaeth rhanbarthol. Mae'n ofynnol i'r byrddau partneriaeth rhanbarthol sefydlu cronfeydd cyfun mewn perthynas â'u swyddogaethau cartrefi gofal a bydd y cronfeydd cyfun hyn yn cefnogi trefniadau comisiynu ar y cyd ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn, sy'n angenrheidiol er mwyn gwella eu llesiant a darparu gwell gwerth am arian.

Gwella'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol

Dim ond os oes gan Gymru weithlu gofal cymdeithasol brwd ac sy'n cael ei werthfawrogi y gall gofal cymdeithasol dibnadwy o ansawdd da ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio.

Rydym yn ymwybodol o anawsterau recriwtio a chadw gweithwyr mewn rhannau o'r sector gofal cymdeithasol lle y gall cystadleuaeth o sectorau eraill sy'n cynnig cyflogau tebyg neu uwch, a gwell amodau arwain at drosiant uchel a chanfyddiad negyddol o fod yn weithiwr gofal cymdeithasol. Mae cyflogwyr wedi amlygu ffactorau eraill sy'n effeithio ar adnoddau yn y sector, fel y cynnydd yn yr isafswm cyflog cenedlaethol ac awtogofrestru mewn cynllun pensiwn.

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, cyflwynodd Llywodraeth Cymru fesurau yn ddiweddar, drwy reoliadau o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, i wella'r telerau ac amodau i weithwyr ac ansawdd gofal. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion ar ddarparwyr gofal cartref i fod yn fwy tryloyw yn eu defnydd o gontractau dim oriau, i gynnig y dewis i staff o gontractau oriau penodedig ar ôl bod yn gyflogedig am gyfnod o dri mis, ac i sicrhau bod gwahaniaeth clir rhwng amser gofalu a theithio. Ar ben hyn darperir £19 miliwn o gyllid cylchol ychwanegol drwy awdurdodau lleol i gefnogi darparwyr gofal i ymdopi â rhai o effeithiau ariannol y lleiafswm cyflog cenedlaethol. Mae'r buddsoddiad hwn yn rhan o'r ymrwymiad triphlyg rhwng Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a chyflogwyr i wneud cynnydd ar y mater hwn.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i godi proffil gweithwyr gofal cymdeithasol, er mwyn gwneud gofal cymdeithasol yn ddewis gyrfa cadarnhaol lle y gwelir pobl yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Fel rhan o hyn mae Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu, yn gweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu strategaeth y gweithlu sy'n nodi'r anghenion o ran adnoddau a galluogrwydd nawr ac yn y dyfodol, a sut y bydd y rhain yn cael eu diwallu. Yn ogystal bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn arwain ymgyrch genedlaethol i ddenu a recriwtio mwy o weithwyr i'r sector a'u cadw.

Bydd y mesurau hyn yn arwain at weithlu gofal cymdeithasol a fydd yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu'n fwy er mwyn ymateb i heriau'r dyfodol a chynorthwyo i leihau gwario adnoddau prin ar staff newydd a hyfforddi staff a gollir i sectorau eraill.

Wedi dweud hynny, ym mis Medi 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei phapur polisi, 'Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl,' sy'n amlinellu'r cynigion ar sail tystiolaeth o sut y dylid rheoli mudo rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'r DU ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Fel y soniwyd eisoes, yn dibynnu ar y trefniadau trosglwyddo y cytunwyd arnynt, rydym yn credu y gallai'r sefyllfa recriwtio a chadw gweithwyr presennol waethygu yn sgil y broses hon. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â gweithwyr gofal cartref a nyrsys cofrestredig mewn cartrefi gofal.

Rydym yn parhau i weithio â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru, i fesur effeithiau posibl Brexit ar y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru ac i ystyried opsiynau ar gyfer eu rheoli. Mae hyn yn cynnwys gwneud defnydd effeithiol o Gronfa Bontio'r Undeb Ewropeaidd, cronfa werth £50 miliwn a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi'r paratoadau ar gyfer Brexit yng Nghymru.

Gofalwyr Di-dâl
Ochr yn ochr â'r gweithlu cyflogedig mae'r arwyr gofal cymdeithasol llai amlwg nad ydynt yn aml yn cael eu cydnabod; y gofalwyr di-dâl. Mae gwerth economaidd cyfraniad gofalwyr di-dâl yn arbed symiau enfawr i'r pwrs cyhoeddus bob blwyddyn. Yn 2011, roedd cyfrifiad Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol y DU yn amcangyfrif bod dros 370,000 o ofalwyr yng Nghymru, oddeutu 12% o'r boblogaeth. Mewn bron bob categori, mae gan Gymru'r gyfran uchaf o ofalwyr yn y DU, boed yn gyfran uchaf o ofalwyr hŷn, y gyfran uchaf o ofalwyr sy'n darparu dros 50 awr o ofal yr wythnos, neu'r gyfran uchaf o ofalwyr o dan 18 oed.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi gwerth a budd enfawr gofalwyr di-dâl, nid yn unig i'r anwyliaid y maent yn gofalu amdanynt ond hefyd eu cyfraniad enfawr tuag at ysgafnhau'r pwysau ar y sector gofal cymdeithasol. Os ydym yn bwriadu ymateb i ofynion cynyddol poblogaeth sy'n heneiddio mae'n rhaid inni barhau i werthfawrogi a chefnogi gofalwyr di-dâl pryd bynnag mae hynny'n bosibl.

O ganlyniad rydym wedi gwella hawliau gofalwyr di-dâl drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn y blaenoriaethau cenedlaethol dilynol a sefydlwyd gennym, byddwn yn sicrhau bod yr hawliau gwell hynny'n cael eu darparu i ofalwyr ledled Cymru.

Cyllido Gofal Cymdeithasol
Defnyddiodd Y Sefydliad Iechyd waith a wnaed gan Ysgol Economeg Llundain i ragamcanu costau gofal cymdeithasol i oedolion wedi'i gyllido ag arian cyhoeddus yng Nghymru. Dangosodd hyn y gallai'r gost cynyddu o 80% mewn termau real rhwng 2015 a 2030. Mae'r amcangyfrifon hyn yn cyd-fynd â'r dadansoddiadau byr dymor yn Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025. Mae'r rhagamcanion hyn o gostau yn sensitif iawn i ragdybiaethau am dueddiadau o ran marwolaethau, cyfraddau anabledd, costau unedol gofal cymdeithasol, a dewisiadau'r rhai sy'n derbyn gofal a chymorth derbynyddion. Fodd bynnag, nid yw'n afresymol meddwl y byddwn yn debygol o weld cynnydd sylweddol yn y galw am ofal cymdeithasol wrth i'r genhedlaeth a anwyd ar ôl yr Ail Ryfel Byd heneiddio.
Mewn amgylchedd o bwysau cynyddol a galwadau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd am adnoddau prin, rydym wedi ceisio diogelu'r cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. Gwelir tystiolaeth o hyn yn y cynnydd o 8% yn nhermau arian parod a neilltuwyd i wario ar wasanaethau cymdeithasol rhwng 2010-11 a 2016-17 (o gymharu â chynnydd o 3% yng nghyllideb adnoddau gyfan Llywodraeth Cymru ar gyfer yr un cyfnod.) Mae hwn mewn gwrthgyferbyniad llwyr â'r sefyllfa yn Lloegr, lle mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi dioddef toriadau enfawr dros y chwe blynedd diwethaf, gan ostwng 5% mewn termau real.

O ganlyniad yn 2017-18 buddsoddodd Llywodraeth Cymru £55 miliwn ychwanegol yn y gwasanaethau cymdeithasol drwy'r Grant Cynnal Refeniw a grantiau penodol, gyda'r cyllid hwn yn cael ei gynnwys ar sail gylchol yn y setliad llywodraeth leol o 2018-19 ymlaen. Yn ogystal, neilltuwyd £10 miliwn arall i awdurdodau lleol yn 2017-

18 i alluogi'r gwasanaethau gofal cymdeithasol i gefnogi pobl yn eu cartrefi a'u cymunedau, ac i gynorthwyo i reoli pwysau'r gaeaf.

Ar gyfer y flwyddyn hon rydym wedi cymryd camau eraill i ddiogelu'r buddsoddiad mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'r ddarpariaeth o £42 miliwn i ofal cymdeithasol a gyhoeddwyd fel rhan o Gyllideb 2018-19 yn arian ychwanegol a gynhwyswyd yn y setliad i gynnal gwariant craidd y gwasanaethau cymdeithasol ar lefelau 2017-18.

**Ariannu Gofal Cymdeithasol yn y Dyfodol**

Yng nghyd-destun y cynnydd yn y galw am ofal cymdeithasol a chymorth rydym yn cydnabod yr angen i roi ariannu'r gwasanaethau cymdeithasol ar sylfaen fwy cynaliadwy. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y pwysau ariannol ar gyllideb Llywodraeth Cymru mewn cyfnod o gyni parhaus.

Byddwch wedi nodi o bapur tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yr ystyriaethau blaenorol o ran ariannu gofal cymdeithasol, gan gynnwys ystyried modelau a ddefnyddir mewn gwledydd eraill. Er ein bod wedi cymryd rhai camau yn y maes hwn, a'u bod wedi bod yn llwyddiannus, nid ydynt eto wedi mynd i'r afael â mwy na dim ond elfen o'r cyllid sy'n deillio o dderbynyddion yn talu am y gofal a'r cymorth a gânt. Mae'n rhaid inni fynd i'r afael â'r cyllid ehangach sydd ei angen i dalu costau llawn y gofal a'r cymorth a ddarperir ac o ganlyniad, adlewyrchir hyn yn ein hymrwymiad yn '*Ffyniant i Bawb',* sef *datblygu modelau ariannol arloesol i sicrhau bod arian ar gael er mwyn diwallu'r galw am ofal cymdeithasol yn y dyfodol.*

Nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ei ymrwymiad i wneud rhagor o waith ar sut i ddatblygu pwerau ariannol Llywodraeth Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r her o ariannu'r galw cynyddol am ofal cymdeithasol fel rhan o'r gwaith ar bedair treth newydd. Fel yr amlinellodd yn ei bapur tystiolaeth mae'r gwaith wedi cychwyn yn barod ac yn rhoi ystyriaeth i gynnig yr Athro Gerald Holtham i ddatblygu ardoll gofal cymdeithasol i greu cronfa gofal cymdeithasol. Rwyf ar ddeall ei fod hefyd yn ystyried a ddylai cyfraddau treth incwm Cymru, a fydd yn cael eu casglu o fis Ebrill y flwyddyn nesaf, hefyd yn gallu chwarae rhan yn hyn o beth.

I ategu hyn rydym wrthi'n comisiynu Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i gyflwyno trosolwg ar draws y llywodraeth leol o'r pwysau yn y dyfodol, ac yn sgil hynny y blaenoriaethu cyllido, ar gyfer gofal cymdeithasol dros y 10 mlynedd nesaf. Ei nod yw dechrau darparu'r dystiolaeth am sut i ddefnyddio'r arian a godir drwy ardoll, neu unrhyw ddull arall, gan ystyried ein hymateb i'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r ddarpariaeth o ofal cymdeithasol yn y dyfodol. Bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar hyn yn ddiweddarach yr haf hwn.

Yn ogystal gofynnodd y Prif Weinidog i mi gadeirio grŵp rhyng-Weinidogol i ddarparu persbectif polisi gofal cymdeithasol i gyd-fynd â'r ystyriaethau ariannol hyn am gronfa gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn dod â'm cyd-weinidogion ynghyd ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol, cyllid, llywodraeth leol a thai i ystyried y materion polisi gofal cymdeithasol sy'n effeithio ar y broses o greu'r gronfa a'r defnydd ohoni, a bod y cyhoedd yn ei dderbyn fel dull posibl o gyllido gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Rwy'n bwriadu cynnal y cyfarfod cyntaf o'r grŵp yn y dyfodol agos.

**Crynodeb**
Mae'n ddyddiau cynnar iawn o safbwynt ystyried modelau amgen i ariannu gofal cymdeithasol yn y dyfodol a bydd dod i unrhyw gasgliadau am y dyfodol yn cymryd amser. Yn y cyfamser byddwch yn gweld ein bod wedi defnyddio’r ystod lawn o bwerau deddfwriaethol, mentrau polisi a chyllid ychwanegol i ddiwallu’r galw am ofal cymdeithasol nawr ac yn y dyfodol.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Cadeiryddion y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/LPR

15 Mai 2018

Annwyl Gadeirydd

Ysgrifennaf atoch ynghylch ein cynlluniau i ail-drefnu digwyddiad Senedd Delyn a ohiriwyd ar gyfer yr wythnos sy'n dechrau ar 25 Mehefin 2018.

Fel rhan o'n rhaglen, byddwn yn cynnal cyfres o weithgareddau i hyrwyddo gwaith y Cynulliad, Senedd Ieuenctid Cymru a dathlu Canmlwyddiant y Mudiad Pleidlais i Fenywod. Caiff ei hategu gan sesiynau allgymorth ac addysg gydag ysgolion, colegau, grwpiau ieuenctid, grwpiau cymunedol, busnesau ac elusennau yn yr ardal. Byddwn hefyd ym marchnad yr Wyddgrug yn ystod yr wythnos.

Yn ystod mentrau blaenorol Senedd@, mae pwyllgorau wedi cynnal cyfarfodydd ffurfiol a sesiynau ymgysylltu anffurfiol mewn lleoliadau cymunedol i annog pobl i gyfrannu at eu gwaith. Mae Senedd Delyn yn gyfle i godi proffil eich Pwyllgor, ac ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid a dinasyddion lleol. Rwy'n deall bod byr rybudd y tro hwn i wneud trefniadau ond, os hoffech gymryd rhan, rydym yn barod i'ch helpu. Rwy'n bwriadu sicrhau y caiff mwy o rybudd ei roi ar raglenni Senedd@ yn y dyfodol i roi mwy o gyfle i gydlynu gweithgarwch.

Diolch ymlaen llaw am eich cydweithrediad.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403